# Cenn@d

12 Awst 2026

Rhifyn 285

WYTHNOSOLYN CRISTNOGOL CYMRAEG

a noddir gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru ac Undeb Bedyddwyr Cymru

UBC BUW


## Wythnos arbennig yng Nghlwb Haf Caersalem, Caernafon

### gan Rhys Llwyd

Cawsom wythnos arbennig unwaith eto yng Nghlwb Haf Caersalem eleni, wrth i blant o'r eglwys a'r gymuned ddod ynghyd am dri diwrnod llawn hwyl, chwerthin a dysgu.

Thema'r wythnos oedd 'Pobl yn cyfarfod Iesu', a thrwy straeon o'r Beibl cawsom weld sut roedd cyfarfod ag Iesu yn newid bywydau pobl. Buom yn clywed am Sacheus yn dringo coeden er mwyn cael cipolwg ar Iesu, am Iesu'n helpu pobl mewn angen, ac am Pedr a'r pysgotwyr yn gadael eu rhwydi er mwyn ei ddilyn. Roedd pob stori'n ein hatgoffa fod Iesu'n gweld pob unigolyn, yn croesawu pawb ac yn ein galw i fyw mewn ffordd newydd.




Daeth y straeon yn fyw drwy gyflwyniadau bywiog, gweithgareddau crefft, taflenni gwaith a gemau, â phob sesiwn yn dod i ben gyda chinio ysgafn. Cafodd y plant gyfle i ddefnyddio'u dychymyg, i gydweithio a gwneud ffrindiau newydd ac, wrth gwrs, i losgi digonedd o egni! Roedd yn hyfryd gweld plant o wahanol oedrannau'n mwynhau bod gyda'i gilydd ac yn cymryd rhan mor frwdfrydig ym mhob agwedd ar y clwb.

Ni fyddai'r Clwb Haf yn bosibl heb waith caled a haelioni'r tîm o wirfoddolwyr, oedd yn cynnwys ieuenctid hŷn yr eglwys. Diolch o galon i bawb a roddodd o'u hamser i baratoi, arwain gweithgareddau, croesawu'r plant, darparu lluniaeth a gwneud yn siŵr fod popeth yn rhedeg yn ddiogel ac yn esmwyth.



Mae diolch arbennig yn ddyledus i Hannah Smethurst, ein Gweinidog Cyswllt Pob Oed, am drefnu'r wythnos ac am arwain y cyfan gyda'i hegni, ei chreadigrwydd a'i gofal arferol.

Ond mae'r diolch mwyaf i'r holl blant a ddaeth drwy'r drysau. Nhw wnaeth yr wythnos mor fywiog a chofiadwy. Edrychwn ymlaen yn barod at Glwb Haf Caersalem y flwyddyn nesaf!


Y meysydd yn wynion
Tudalen 2

Adroddiad o Undeb yr Annibynwyr
Tudalen 3

Myfyrio ar emynau Ann Griffiths
Tudalen 4

# O’r byd a’r betws

**Colofn Denzil I John**



## ‘Y meysydd yn wynion’

Pan oeddwn yn blentyn ac yn fy arddegau, un o bleserau’r cyfnod yma o’r flwyddyn oedd gweld y sied wair ar y fferm lle y’m magwyd yn llawn o fyrnau, gan wybod bod digon o fwyd i’r anifeiliaid dros y gaeaf. Bellach, wrth yrru drwy ardaloedd amaethyddol, byddaf yn sylwi ar siediau gwair gwag, neu roliau o silwair wedi eu lapio mewn plastig trwchus yn yr ydlan.

Wrth grwydro drwy gymoedd y de-ddwyrain, gwelir yr hen ‘focsys sgwâr’, y tai cwrdd a fu, yn greiriau o’r gorffennol. Pa ryfedd bod sylwi ar gynifer o gapeli gwag yn peri bod cyfeillion fel y Parchg Ddr D. Ben Rees yn darogan tranc adeiladau o’r fath? Y lletchwithdod o ddweud hynny ar lwyfannau cyhoeddus yw cyfleu fod y dystiolaeth Gristnogol yn dod i ben, a’n bod yn byw mewn oes ôl-Gristnogol. Na ato Duw.

Yn salm alarnadus rhif 74, roedd y salmydd yn meddwl bod y genedl yn dod i ben, a bod y gelyn wedi chwalu popeth a arferai gynrychioli’r bywyd crefyddol Hebreig. Yn ail ganiad y salm, mae’r salmydd yn cofio ac yn datgan mai Duw yw ei frenin, ac mae’n rhestru llawer o weithredoedd sy’n dangos goruchafiaeth Duw dros amgylchiadau truenus y genedl. Mae caniad canolog y salm yn baragraff o foliant. Erbyn y trydydd caniad mae’r salmydd yn llawn hyder am fod ei frenin dwyfol â’r modd i adfer y genedl a hawlio’i bobl iddo’i hun.

Pethau defnyddiol a hwylus fu’r capeli a’r festrïoedd yn ystod y 150 mlynedd diwethaf, ond mae llawer o adeiladau ddoe angen eu gwaredu bellach gan fod adnoddau gwahanol yn bosibl heddiw. Prin fod defnydd i bicwerchi wrth hel cynhaeaf i fwydo’r anifeiliaid heddiw, ac mae cynaeafu amaethyddol yn pwyso ar grebwyll mecanyddol a digidol.

Bydd llawer o’n cynulleidfaoedd yn defnyddio sgriniau i arddangos emynau, darlleniadau a darluniau yn yr addoliad. Dyna fydd disgyblion ysgol a choleg yn arfer ag e’. Adnoddau felly sy’n sylfaenol i gynnal seminarau mewn pob math o ddiwydiannau, ac mae oes anfon llythyr drwy’r post neu gymryd nodiadau ar bapur wedi hen fynd. Mae’n braf clywed bod cymunedau Cristnogol yn barod i dderbyn heriau ein cyfnod, a bod nifer cynyddol o eglwysi’n defnyddio adeiladau seciwlar i ymgynnull pan fydd defnyddioldeb yr adeiladau eglwysig wedi dod i ben.

Ffenomen gynyddol mewn sawl maes yw manteisio ar adeiladau amlbwrpas, ac yn aml mae’r hen hunaniaeth enwadol wedi colli tir. Ydy hynny’n bwysig? Nac ydy, wrth gwrs. Yr hyn sy’n bwysig yw fod pobl yn ystyried eu hanghenion ysbrydol ac yn chwilio am gyfleoedd i ymarfer eu ffydd, i werthfawrogi cymdeithas ac i ymroi i fyw’r ffydd mewn ffordd ddidwyll, onest ac ymarferol. Mae arddel ac addoli Duw ac ymarfer duwioldeb mor berthnasol ag erioed, fel y mae dilyn ffordd Iesu o fyw a meithrin cyswllt â’n cyd-Gristnogion yn bwysig. Nid adeilad yr ymgynnull yw Cristnogaeth, ond ffordd o fyw a dyhead i ddathlu’r cariad duwiol yn ein bywydau beunyddiol.



Mae’n braf clywed am Gristnogion ifanc yn mentro darganfod a dathlu Iesu yn eu bywydau, boed hynny mewn capeli traddodiadol neu mewn lleoliadau gwahanol ac amlbwrpas. Bydd rhaglenni teledu fel *Ffermio* yn dangos datblygiad a chynnydd yn y diwydiant amaethyddol. Yn yr un modd, byddwn yn agored i ffyrdd newydd o ddathlu Duw yn ein bywydau ac yn ein byd. Nid gwarchod adeiladau ddoe yw ein gwaith, ond hyrwyddo achos Iesu ymhlith y rhai sydd eto i’w dderbyn fel gwirionedd i’w gredu a Gwaredwr i’w ddilyn. Mae’r enwadau’n cynllunio i feithrin sgiliau newydd, ac eisoes mae llawer o’n hardaloedd yn gweld patrymau newydd o fod yn eglwysi wrth fwrw iddi i genhadaeth canol y ganrif gyfredol.

Edrychwn yn ôl gyda diolchgarwch ac edrychwn ymlaen yn hyderus. Mae’r meysydd yn wynion, ac awn ymlaen i gynaeafu.

**Cyhoeddiadau Radio Cymru, 16 Awst 2026**

*Oedfa Radio Cymru* **Sul, 16 Awst am 12:00yp**
Oedfa dan arweiniad Trey McCain, Pen-y-groes

*Caniadaeth y Cysegr* **Sul, 16 Awst, am 7:30yb a 4:30yp**
Ailddarllediad o Gymanfa Ganu
Eisteddfod y Garreg Las

# Twr yn y Tŵr:

## Adroddiad o Gyfarfodydd Blynyddol Undeb yr Annibynwyr Cymraeg a gynhaliwyd yng Ngwesty'r Tyrau, Abertawe

Cynhaliwyd Cyfarfodydd Blynyddol yr Undeb eleni yn ystod cyfnod o dywydd crasboeth ar 24–26 Mehefin yng ngwesty'r Tyrau, Abertawe. Dyma grynodeb o'r hyn ddigwyddodd yn yr Undeb, gan ddiolch i bawb fu'n gyfrifol am drefnu'r holl weithgareddau, o staff yr Undeb i'r pwyllgor lleol o dan gadeiryddiaeth Fiona Gannon. Rhedodd y cwbl yn esmwyth o'r lleoliad, y llety, y cyfarfodydd arbennig, y bwyd, y darlledu a'r cludiant. Diolch o galon am y croeso ac am ddarparu mor wych ar gyfer y cynadleddwyr.

### Dydd Mercher

Fe'n croesawyd i gyd yn gynnes ar ddechrau'r gynhadledd gan y Llywydd, y Parchg Owain Llŷr Evans. Diolchwn i Owain am ei lywyddiaeth bwrpasol, drefnus a hwyliog, a barodd ein bod yn dilyn yr amserlen yn fanwl. Yna, cychwynnodd y cwbl, fel y dylai, gydag astudiaeth feiblaidd a defosiwn o dan arweiniad y Parchg Beti-Wyn James, Caerfyrddin. Ysbrydolwyd ei myfyrdodau gan ein lleoliad, sef gwesty'r Tyrau, sydd â thŵr mawr urddasol y tu allan. Aeth â ni i ystyried arwyddocâd tŵr Babel yn Genesis 11:1–9. Gobeithiwn gynnwys crynodeb o'i dau fyfyrdod yn fuan yn *Y Tyst*.

Bu tri chyfarfod cyhoeddus arall ar y dydd Mercher. Yn gyntaf, cyflwynodd yr Athro Prys Morgan ddarlith 'Annibynia yn ei grym: Thomas Rees, Abertawe'. Dywedodd fod T. Rees yn un o gewri anghofiedig ymneilltuaeth yng Nghymru. Yr ail oedd cyfarfod y Rhwydwaith Heddwch, lle traddododd y Prifardd Mererid Hopwood ddarlith yn dwyn y teitl '"Yr un yw baich gwerin byd": cofio Waldo'. Gwnaeth hyn yn ei ffordd ddihafal ei hun, yn llawn egni ac ysgolheictod. Yna, yn drydydd, aethom i gapel enfawr y Tabernacl, Treforys, ar gyfer Cyngerdd Dinas Noddfa, a hynny mewn gwres aruthrol. Cymerwyd rhan gan bobl leol, yn cynnwys rhai o gymuned y ceiswyr lloches. Cawsom gyfle i ddathlu gyda'n gilydd amrywiaeth y ddynoliaeth mewn undod fel pobl a grëwyd gan Dduw.




### Dydd Iau

Roedd dydd Iau yn llawn hyd yr ymylon gyda gweithgareddau. Cafwyd adroddiad yr Ysgrifennydd Cyffredinol, Elinor Wyn Reynolds, a oedd yn llawn gweledigaeth ar gyfer y dyfodol, ac adroddiad y Trysorydd, Geraint Rees, a bwysleisiai'r angen i ddefnyddio'r arian mewn ffordd fydd yn gwneud ein tystiolaeth yn berthnasol i'r oes bresennol. Buom yn trafod busnes, materion yn ymwneud â hyfforddiant ac yn pleidleisio dros gynigion.

Yn dilyn hyn cafwyd dau gyfarfod cyhoeddus. Yng nghyfarfod y Gymdeithas Hanes traddododd y Prifardd Tudur Dylan ddarlith ar 'Arglwydd y Cwm: golwg ar fywyd a gwaith Eifion Wyn, 1867–1926.' A chyda'r nos aethom i gapel eiriasboeth y Nant ar gyfer oedfa o fawl. Llywyddwyd gan y Parchg Owain Llŷr Evans a chymerwyd rhan gan Nel Richards a'r Parchedigion Gareth Morgan Jones a Jill-Hailey Harries. Traddododd y Parchg Dylan Rhys Parry, Pen-y-bont ar Ogwr bregeth yn dwyn y teitl 'Prism Gras Duw'.

### Dydd Gwener

Agorwyd gweithgareddau'r dydd Gwener gyda defosiwn o dan arweiniad Cyfundeb Gorllewin Morgannwg. Cafwyd darlleniad o'r Beibl a gweddi gan y Parchg Rhys Locke, myfyrdod gan y Parchg Gareth Morgan Jones a deuawd gan Rhys a Siân Meinir. Yna, cafwyd lansiad rhagorol ymgyrch Glandeg gan y Rhwydwaith Merched wedi'i arwain gan Siân Meinir, y Parchg Mererid Mair a'r Parchg Jill-Hailey Harries. Daeth y gweithgareddau i ben gydag Oedfa'r Llywydd. Llywyddwyd gan Jean Lewis, a chafwyd perfformiad gan Brigyn cyn i'r Parchg Owain Llŷr Evans draddodi anerchiad y Llywydd, a oedd yn llawn gwreiddioldeb a sylwedd. Diolch hefyd i'r rhai fu'n gyfrifol am ffrydio'r cyfarfodydd yn fyw ar sianel YouTube Undeb yr Annibynwyr.



# ‘Gwna fi fel pren’

**allan o *Emynau’r Ffydd* gan Huw Powell-Davies**

Gyda thywydd sych a phoeth yr haf hwn yn gwneud i ddail y coed wywo a pheryglu unrhyw gynhaeaf oddi arnyn nhw, daeth yr emyn ‘Gwna fi fel pren planedig o fy Nuw’ gan Ann Griffiths (1776–1805) i’r cof a’r myfyrdod hwn a luniwyd beth amser yn ôl.

> Gwna fi fel pren planedig, O fy Nuw,
> yn ir ar lan afonydd dyfroedd byw,
> yn gwreiddio ar led, a’i ddail heb wywo mwy,
> yn ffrwytho dan gawodydd dwyfol glwy’.
> (*Caneuon Ffydd*, 756)

Awydd i fod yn wyrdd a ffrwythlon sydd gan Ann Griffiths yn y pennill hwn. Ond fe ŵyr cystal â neb fod yn rhaid wrth dir da wedi ei ddyfrio a’i wrteithio er mwyn i blanhigyn ddwyn ffrwyth. Mae Ann yn troi addewid Duw yn y salm gyntaf – ‘efe a fydd fel pren wedi ei blannu ar lan afonydd dyfroedd, yr hwn a rydd ei ffrwyth yn ei bryd; a’i ddalen ni wywa, a pha beth bynnag a wnêl, efe a lwydda’ (Salm 1:3, BWM) – yn weddi iddi hi ei hun. Mae’r addewid yn ddibynnol ar barodrwydd un i fod â’i ewyllys yng nghyfraith yr Arglwydd, ac yn myfyrio yn ei gyfraith ef ddydd a nos (adn. 2). A wyddom ni am unrhyw un oedd yn fwy parod nag Ann Griffiths ei hun i ‘fyfyrio yn ei gyfraith ef ddydd a nos’?

Roedd dail y pren yn parhau heb wywo am fod y pren wedi ei wreiddio’n ddwfn ac yn sugno dŵr o’r ‘afonydd dyfroedd byw’ yn nodd iddo’i hun. Y Beibl yw nodd Ann ac mae hi’n sugno’n helaeth ohono. Diau bod cyfeiriad yma hefyd at weledigaeth Eseciel (pennod 47), lle mae’r dŵr yn llifo’n afon gref o dan drothwy’r deml ac yn dyfrhau pob math o goedydd a’u ‘ffrwyth yn ymborth, a’i ddalen yn feddyginiaeth’ (Eseciel 47:12). Roedd proffwydoliaeth o’r fath am ddyfroedd yn llifo ac yn bendithio yn rhagfynegi gwaith yr Ysbryd Glân ym mywydau credinwyr y Testament Newydd. Os yw’r dŵr bywiol, adnewyddol hwn am gael effaith, yna mae’n rhaid iddo ein cyrraedd ni, y rhai sydd wedi ein plannu ar ei lan, a llifo trwom er mwyn cyrraedd ein cenhedlaeth ninnau, megis cenhedlaeth Ann.

Gwyddai Ann hefyd y byddai’r rhai a “blannwyd yn nhŷ yr Arglwydd” (Salm 92:13) yn blodeuo ac yn ffrwytho iddo yn eu hen ddyddiau. Ond chafodd Ann ddim byw i weld cyflawni’r addewid hwnnw. Priododd â Thomas Griffiths o Feifod ar 10 Hydref 1804, ond am ddeng mis yn unig y bu hi’n briod â’i gŵr, a ddaeth i fyw ati hi i Ddolwar Fach gan ei bod erbyn hyn yn ferch ifanc amddifad.

Bu’n briodas hynod o hapus er mai ber oedd hi. Ganed merch iddyn nhw ymhen y deng mis, ond bu farw’r fechan yn bythefnos oed, a bu Ann farw’n union ar ei hôl a hithau’n ddim ond naw ar hugain mlwydd oed. Fe’i claddwyd ar 12 Awst 1805, dyddiad sy’n cael ei adnabod bellach fel Diwrnod Ann Griffiths. Trist yw nodi i Thomas hefyd farw yn ifanc ymhen tair blynedd wedyn, yn 1808.

Er tristwch yr hanes hwn, oedd yn ddigwyddiad rhy gyffredin o lawer y dyddiau hynny, rydym ni’n diolch heddiw am Ann:

> Hithau a enwaf weithian:
> Y danbaid, fendigaid Ann

fel y canodd J. T. Job wrth ddiolch i Dduw amdani yn ei awdl i’r emyn ac emynwyr Cymru, ‘Eu Nêr a Folant’, ym 1918.

Yn nawdegau’r ddeunawfed ganrif bu Ann dan weinidogaeth y Methodistiaid oedd yn codi yn sir Drefaldwyn, gan brofi’n fuan o’r ailenedigaeth, profiad a fu’n ganolbwynt ei meddwl oddi ar hynny ac a roddodd i ni ffrwyth hyfryd ei hemynau ‘dan gawodydd dwyfol glwy’.

**Gweddi**

O Dad nefol, yr wyt ti’n disgwyl ffrwyth gan bob un o’th blant. Bydded inni fwrw ein gwreiddiau’n ddwfn ynot ti er mwyn tynnu o’th nodd, fel na wywa ein dail o dan ddylanwadau’r byd o’n cwmpas, ac y cynyddo ein ffiwyth er clod a gogoniant i dy Fab. Amen.


**MENTER IEUENCTID CRISTNOGOL SIR GAR (MIC)**

**Mae MIC yn chwilio am Swyddog Datblygu: Plant ac Ieuenctid MIC Sir Gaerfyrddin**

Tymor: 3 blynedd.
Gellir ymestyn y cyfnod am 3 blynedd arall trwy gytundeb, ac yn ddibynnol ar gyllid digonol.
Amser: 14 awr amser hyblyg.
Cyflog: Graddfa £26,000 - £28,500, ‘pro rata’ ynghyd â Chynllun Pensiwn. (£10,400 - £11,400)
Am ddisgrifiad swydd a ffurflen gais, cysylltwch â Peter Harries: 01558 823075 E-bost p.harries70@outlook.com

Mae’r swydd yn seiliedig ar ddatgeliad DBS boddhaol a dau eirda.
Mae gofyniad galwedigaethol Cristnogol ac iaith Gymraeg yn berthnasol ar gyfer y swydd hon.

Cewch wybodaeth am waith MIC ar ein gwefan;
www.micsirgar.org
Dyddiad cau: Medi 24ain, 2026.



**Anfonwch eich cyfraniadau at y golygyddion:** Aled Davies: aled@ysgolsul.com
Huw Powell-Davies: huw@cennad.cymru

Tîm Golygyddol: Aled Davies, Huw Powell-Davies a Marian Beech Hughes (golygydd iaith)

Gwefan: www.cennad.cymru | Facebook: CennadCymru | X: @CennadCymru

Cyhoeddir *Cenn@d* ar y cyd gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru ac Undeb Bedyddwyr Cymru.

*Oni nodir yn wahanol, nid yw barn cyfranwyr **Cenn@d** yn cynrychioli barn swyddogol yr enwadau hyn.*



Os ydych yn poeni am unigolyn neu sefyllfa ac angen cyngor diogelu, cysylltwch â’r Panel Diogelu Cydenwadol **www.panel.cymru** **ar 01745 817584** **neu 07957 510346** yn ystod oriau swyddfa neu **Thirtyone:eight ar 0303 0031111** am gyngor tu allan i oriau swyddfa.